# Gwaelod y Garth




Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

**06.06.2025**

## Mabolgampau!

Croeso cynnes iawn yn ôl i bawb ar gychwyn hanner tymor ola'r flwyddyn hon. Mae hi wedi bod yn hyfryd clywed straeon am y gwyliau – gobeithio i'r oedolion yn eich plith hefyd fwynhau! A pha ffordd gwell i gychwyn yr hanner tymor 'na chynnal Mabolgampau! Mae hi'n arbennig gallu cynnal Mabolgampau i'r ysgol gyfan a chael pob un teulu yn dod i wylio. Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth a'ch brwdfrydedd. Mae llongyfarchiadau mwyaf y Mabolgampau yn mynd i'n plant i gyd. Roeddem mor falch o'u gweld yn herio eu hunain, yn ymdrechu i'r eithaf, yn dyfalbarhau ac yn cefnogi eraill i fentro ac i fod ar eu gorau. O'r gwibio i'r neidio a'r taflu, gwelwyd hwyl, talent, cydweithio a sgiliau moethus! Gwych iawn chi bob un! Bu dathlu mawr yn yr ysgol wrth gyhoeddi taw Llys Garth oedd yn fuddugol y Mabolgampau eleni – wedi mynd â'r dwbl wedi ennill yn yr Eisteddfod hefyd!

Cafodd Dosbarth 4C wythnos hynod gorfforol wrth iddyn nhw gystadlu yng nghystadleuaeth Criced yr Urdd yng ngerddi Soffia heddiw. Eto, dyfalbarhau a herio eu hunain bu'r stori – da iawn chi! Amser i ymlacio heno!

Llongyfarchiadau hefyd i bawb a gynrychiolodd ein hysgol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Margam yn dawnsio neu'n llefaru a hynny i safon mor uchel. Llwyddodd Alaw i gipio'r trydydd wobr ar y ddawns unigol Hip-hop/Stryd/Disgo B6 ac iau. Gwych yn wir!

* * * * * *

A very warm welcome back to one and all at the beginning of this last half term of the year. It's been lovely to hear stories about the holidays – I hope the adults amongst you enjoyed too! And what better way to start the half term than to have our Mabolgampau! It's really lovely to be able to be able to host one whole school sports day for everyone and to invite every single family to watch. Thank you so much for your support and enthusiasm. The biggest congratulations of the Mabolgampau go to all our children. We were so proud to see them challenging themselves, aiming high, persevering and supporting others to venture and to also be at their best. From the spring to the jumping and throwing, we saw fun, talent, collaboration and athletic skills at their best! *Gwych iawn chi bob un!* There was huge excitement back at school when we announced that Llys Garth were the winning house in this year's Mabolgampau – they have taken the double after winning the Eisteddfod too this year!

Dosbarth 4C had a very physical week as they also competed in the Urdd Cricket competition at Sophia Gardens today. Yet again, we saw perseverance and challenge – da iawn! Time to relax tonight!

Congratulations also to all the pupils who represented our school at the Urdd National Eisteddfod in Margam and who danced or recited to such a high standard. Alaw won third place in the solo dance Hip-hop/Street/Disco B6 and under. Gwych yn wir!

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**15.06.25 Dydd Sul / Sunday**
Tafwyl: Derbyn/Reception, 1C, 1E & 2C

**20.06.25 Gwener / Friday**
Gwasanaeth Dosbarth 1E
1E Class Assembly

**27.06.25 Gwener / Friday**
Ffair Haf
*Summer Fair*

**04.07.25 Gwener / Friday**
Gwasanaeth Dosb. Derbyn
*Reception Class Assembly*

**16.07.25 Mercher / Weds**
Gwasanaeth Ymadael B6
*Y6 Leavers' Assembly*



**Capteiniaid Chwaraeon Llys Garth**

Cofiwch am ein calendr byw ar dudalen cartref y wefan.

*Our live calendar is on our school website's homepage.*

Dyddiadau Bws Beics Tymor yr Haf
Summer Term Bike Bus Dates

20.6.25
4.7.25
11.7.25



Croeso cynnes i aelodau newydd!
*New members <u>always</u> welcome!*






**Dosbarth 4C yn mwynhau Criced yr Urdd heddiw**

**4C having fun at the Urdd Cricket today**

**C.Rh.A / *P.T.A***

Cofiwch am....   *Don't forget....*

**27/06/25:** Ffair Haf / *Summer Fayre*

**Diolch** i'r GRhA am fod mor wych!

*A big **diolch** to our brilliant PTA!*




Mae'r disgyblion wedi derbyn tocynnau raffl a chwpan ar gyfer 'Jolly Jars' yn yr ysgol heddiw. Diolch i chi am bob ymdrech i werthu'r tocynnau raffl ac i lenwi'r cwpanau er mwyn ymuno am yr hwyl yn y Ffair Haf. Rydym yn gwerthfawrogi pob ymdrech a chyfraniad. Dim ond tair wythnos i fynd!

*The pupils have been given raffle tickets and a cup for 'Jolly Jars' at the school today. Diolch for every effort to sell the raffle tickets and to fill the cups which add to the fun at the Summer Fair. We appreciate all efforts and contributions. Only three weeks to go!*

## Cymro / Cymraes yr Wythnos

## Welsh learners of the week









## Dysgwyr yr Wythnos

## Learners of the week